

## Canllawiau ar gyfer ail-gomisiynu peiriannau pecynnu dan wactod

### Beth yw ail-gomisiynu?

Ail-gomisiynu yw'r broses o ddatgymalu, glanhau a diheintio rhannau o'r peiriant pecynnu dan wactod (neu 'vacuum packer' yn Saesneg).

Gan ei bod yn bosibl i *E. coli* O157 oroesi, ac er mwyn helpu i atal croeshalogi, rhaid i bob peiriant pecynnu dan wactod sydd i'w ail-gomisiynu fod yn ddiogel cyn ei ddefnyddio gyda bwyd parod i'w fwyta. Rhaid defnyddio technegau glanhau a diheintio addas i sicrhau hynny.

Dylai unrhyw fusnes bwyd sy'n defnyddio peiriant o'r fath ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar lanhau, gwasanaethu a chynnal a chadw yn rheolaidd.

Er mwyn sicrhau diheintio effeithiol, mae'n rhaid sicrhau bod modd cyrraedd darnau mewnol y peiriannau a bod modd eu tynnu'n rhydd a'u glanhau a'u diheintio'n llawn. Mae rhai peiriannau na ellir eu datgymalu a'u diheintio yn effeithiol. **Ni ddylid** defnyddio'r peiriannau hyn ar gyfer bwyd amrwd a bwyd parod i'w fwyta.

### Sut mae ail-gomisiynu peiriant?

Dim ond peiriannydd cymwys a ddylai datgymalu peiriant yn llawn gan fod yn rhaid i'r darnau mewnol fod yn hawdd eu cyrraedd ac mae'n rhaid eu glanhau a'u diheintio. Er enghraifft, peiriannydd peiriant pecynnu dan wactod profiadol neu rywun sy'n gyfarwydd â [Gofynion marcio'r Comisiwn Ewropeaidd \(CE\)](#).

Mae'n rhaid datgymalu'r peiriant yn gyfan gwbl hyd nes bod siambr wag y peiriant yn y golwg. Dylai hyn gynnwys, er enghraifft, tynnu'r bariau selio, y byrddau mewnlenwi, y pwmp gwactod, y pibellau ac eitemau mewnol eraill.

Dylid diheintio'r siambr a'r darnau mewnol sydd wedi'u datgymalu gyda gwres (er enghraifft gan ddefnyddio peiriant stemio) neu yn gemegol gan ddefnyddio cemegion priodol ar y crynodiad cywir ac am yr amser cyswllt priodol, cyn rhoi'r peiriant yn ôl at ei gilydd.

Mae'n rhaid i ddiheintyddion cemegol a ddefnyddir ar gyfer y broses hon gydymffurfio â **BS EN 1276:2009** neu **BS EN 13697:2001** neu safon gyfwerth.



Mae'n annhebygol bod staff arferol y gegin yn gallu cynnal y broses ail-gomisiynu yn effeithiol nac ychwaith ei bod yn bosib cynnal y broses yn ystod gweithrediadau diwrnod gwaith arferol.

Ni ddylid defnyddio peiriannau pecynnu dan wactod sydd wedi dirywio neu wedi'u difrodi i'r fath raddau nad oes modd eu glanhau/diheintio'n drylwyr. Gan ddibynnu ar y difrod neu'r dirywiad, efallai nad yw ail-gomisiynu yn bosib.

## Pryd dylid ail-gomisiynu peiriant?

Dyma rai amgylchiadau lle byddai gofyn ail-gomisiynu peiriant pecynnu dan wactod (nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr):

- os nad yw'r perchennog / gweithredwr yn siŵr sut cafodd y peiriant ei ddefnyddio'n flaenorol
- pan fo bwyd amrwd wedi'i brosesu ar ddamwain mewn peiriant sydd wedi'i ddynodi ar gyfer bwyd parod i'w fwyta yn unig
- pan fo defnydd o'r peiriant yn cael ei newid o fwyd amrwd i fwyd parod i'w fwyta
- pan fo defnydd o'r peiriant wedi'i wahardd drwy gamau gorfodi ar dystiolaeth nad yw'n ddiogel i'w ddefnyddio â bwyd parod i'w fwyta, oni bai ei fod yn cael ei ail-gomisiynu'n effeithiol
- unrhyw adeg arall lle mae'n bosib bod halogiad gan ffynhonnell o *E. coli* 0157 wedi digwydd ac mae bwriad defnyddio'r peiriant ar gyfer bwyd parod i'w fwyta

## Sut y dylwn i gofnodi'r ail-gomisiynu?

Cofiwch gadw cofnod bob tro y caiff y peiriant ei ail-gomisiynu. Gall dilysu dulliau glanhau effeithiol gynnwys amserlen lanhau wedi'i llofnodi a'i dyddio gan y person cymwys sy'n nodi:

- y weithdrefn dan sylw
- y dull diheintio (gwres neu gemegol)
- wrth ddiheintio â gwres, y cyfuniad amser a gwres
- wrth ddiheintio'n gemegol, y cemegyn penodol, yr amser cyswllt a'r crynodiad
- pwy gynhaliodd y broses

## Trwydded y Llywodraeth Agored

© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau [Trwydded y Llywodraeth Agored f3.0](#) ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle'r ydym ni wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I weld y drwydded hon:

Gwefan <http://www.nationalarchives.gov.uk/>

E-bost [psi@nationalarchives.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gov.uk)

Cyfeiriad: Tîm Polisi Gwybodaeth / Information Policy Team  
The National Archives  
Kew  
London  
TW9 4DU

Rhagor am y cyhoeddiad hwn:

Ymholiadau: <https://www.food.gov.uk/cy/contact/businesses/find-details>



Dilynwch ni at  
Twitter:  
[@fsacymru](https://twitter.com/fsacymru)



Hoffwch ni ar Facebook:  
[facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd](https://facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd)